OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1581

Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016

15.—(1) Mae Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (d), yn lle "yr Undeb Ewropeaidd, enw neu enw busnes a chyfeiriad y sawl a'i mewnforiodd i farchnad yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "y Deyrnas Unedig, enw neu enw busnes a chyfeiriad y sawl a'i mewnforiodd i farchnad y Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (e), yn lle "wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "drydedd wlad";

(b) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "trydedd wlad" yw unrhyw wlad ac eithrio yr Ynysoedd Prydeinig."

(**1**) O.S. 2016/1130 (Cy. 270).